Cycling UK

# Sut y byddwn yn creu bywydau hapusach, iachach a gwyrddach trwy seiclo



## Ein strategaeth 2024–2029

# Rhagair

**Rydymwedi cyflawni cymaint yn ystod cyfnod ein strategaeth ddiwethaf oherwydd angerdd, cydweithrediad ac arbenigedd ein staff, aelodau, gwirfoddolwyr, cefnogwyr, ymgyrchwyr a phartneriaid. A nawr rydymyn edrych i'r dyfodol gyda chynllun beiddgar ac uchelgeisiol a fydd yn llunio ffocws a chyfeiriad ein helusen dros y pummlynedd nesaf.**

Bu llawer o newid ers inni lansio ein strategaeth ddiwethaf ar ddechrau 2019, felly nawr yw'r amser delfrydol inni ail-ganolbwyntio ein hymdrechion, adeiladu ar ein llwyddiannau a gwneud y DU yn lle hyd yn oed yn well i bawb ohonom seiclo ynddo. Rydym mor falch o bopeth a gyflawnasom yn ystod y strategaeth ddiwethaf - ennill gwelliannau hollbwysig i'r Cod Priffyrdd, helpu cannoedd o filoedd o bobl i ddarganfod pleserau seiclo, creu llwybrau newydd eiconig i helpu mwy o bobl i deithio trwy dirweddau syfrdanol y DU, a helpu miloedd o bobl eraill i ddarganfod seiclo trwy ein rhaglenni cymunedol sy'n newid bywydau. Rydym yn falch o'r ffordd rydym wedi tyfu a chryfhau fel sefydliad.



Mae gan seiclo potensial enfawr i wella iechyd a llesiant pobl, mynd i'r afael â newid hinsawdd, dwyn llawenydd i gymunedau a chreu cysylltiadau rhyngddynt. Rydym wedi pennu pum amcan strategol newydd er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn helpu i wireddu'r potensial hwn. Bydd y rhain yn sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar y pethau a gaiff yr effaith gadarnhaol fwyaf. Mae ein strategaeth yn nodi'r newid yr hoffem ei weld mewn cymdeithas, a'n ffyrdd allweddol o sicrhau y caiff ei gyflawni. Mae'n gynllun cyffrous sy'n canolbwyntio ar lawer o'r materion craidd y gwyddwn fod pobl yn malio amdanynt - o wneud ein ffyrdd yn fwy diogel i sicrhau mwy o arian i'r seilwaith seiclo. Hoffem sicrhau y bydd pob profiad seiclo yn un cadarnhaol.

Mae adeiladu cefnogaeth gyhoeddus gryf i seiclo a herio canfyddiadau negyddol yn gonglfaen o'n strategaeth newydd. Mae hwn yn hanfodol i'r broses o wneud y DU yn lle gwell i bawb; trwy seiclo a thrwy alluogi mwy o bobl i adnabod buddion seiclo. Mae ein strategaeth yn sicrhau y byddwn yn berthnasol ac yn ffynnu mewn amgylchedd allanol sy'n newid yn gyflym. Byddwn yn parhau i alluogi ac ysbrydoli pobl o bob cefndir a gallu i brofi pleserau a buddion seiclo. Byddwn yn codi llais dros bawb sy'n seiclo er mwyn sicrhau ei fod yn ddewis diogel a hawdd i bawb ohonom deithio, mynd ar antur a chael hwyl.


Rydym yn wirioneddol gyffrous am beth a ddaw i Cycling UK yn y dyfodol ac yn barod i ysgrifennu pennod nesaf hanes hir a balch ein sefydliad. Gwyddom na allwn ni wneud hynny ar ein pennau ein hunain, felly rydym wedi'n hysgogi i adeiladu cydweithrediadau newydd ac i ysbrydoli mwy o gymorth er mwyn cyflawni bywydau hapusach, iachach a gwyrddach i bawb trwy seiclo.



Sarah Mitchell,
Prif Swyddog Gweithredol



Janet Atherton,
Cadeirydd



# Amdanom ni

**Ni yw elusen seiclo'r DU.**

Rydym yn deillio o ddyddiau cynnar seiclo, pan agorodd y beic gorwelion newydd ar gyfer teithio'n annibynnol. Yn ystod y 146 o flynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu'n rym ysgogol yn y gwaith o eirioli dros hawliau pobl sy'n seiclo, gwella seilwaith ac ysbrydoli pobl o bob oedran, cefndir a gallu i elwa ar bleserau seiclo.

Rydym yn parhau i fod ar flaen y gad o ran rhoi cyngor ar faterion yn gysylltiedig â seiclo, meithrin cymuned fywiog o seiclwyr, a hyrwyddo buddion niferus seiclo at ddibenion hamdden, llesiant a'r amgylchedd. Fel elusen annibynnol, ddemocrataidd ac arbenigol, mae ein gweithgareddau'n adlewyrchu ymrwymiad rhwydwaith o wirfoddolwyr, ymgyrchwyr, partneriaid a 71,000 o aelodau, i symud seiclo i'r brif ffrwd ac i greu gwahaniaeth parhaol ym mywydau unigolion a chymunedau.

Rydym yn gweithio i'r rhai sy'n seiclo eisoes, ac i seiclwyr y dyfodol hefyd. Mae cynyddu nifer y bobl sy'n seiclo o fudd i bawb ohonom. Gyda'n gilydd, rydym yn creu cymdeithas iachach, hapusach, gwyrddach a mwy cysylltiedig trwy rym seiclo.

## Cycling UK mewn niferoedd

- Wedi'i sefydlu ers 146 o flynyddoedd
- 71,000 o aelodau
- 100,000+ o bobl y flwyddyn yn cymryd rhan yn ein gwaith i newid ymddygiad
- 1,000 o grwpiau seiclo lleol
- 40 o bartneriaid
- 300+ o gynrychiolwyr ymgyrchu lleol trwy ein Rhwydwaith Eirioli dros Seiclo
- Bron 5miliwn o deithiaumewn car wedi'u hosgoi trwy ein rhaglen AdfywiadMawr y Beiciau



# Ein weledigaeth, ein cenhadaeth a'n diben



## Ein gweledigaeth:

Bywydau hapusach, iachach a gwyrddach trwy seiclo.

## Ein cenhadaeth:

Rydym yn galluogi ac ysbrydoli pobl o bob cefndir a gallu i brofi pleserau a buddion seiclo. Rydym yn codi llais dros bawb sy'n seiclo er mwyn sicrhau ei fod yn ddewis diogel a hawdd i bawb ohonom deithio, mynd ar antur a chael hwyl. Mae ein helusen yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol er mwyn cael yr effaith mwyaf posibl.

## Ein diben:

Rydym yn gwella bywydau, lleoedd a'r blaned trwy fuddion anhygoel seiclo. Cawn ein pweru gan ein treftadaeth a'n harbenigedd, ynghyd ag angerdd ein staff, cefnogwyr a gwirfoddolwyr.



# Ein cyfeiriad strategol deng mlynedd

Mae Cycling UK wedi ymrwymo i greu cymdeithas lle mae pawb yn gweld buddion seiclo i lesiant, iechyd a'r amgylchedd, hyd yn oed os nad ydynt yn seiclo eu hunain.

Credwn mai'r unig ffordd o gyflawni ein nod yw adeiladu cefnogaeth hirdymor i seiclo ymysg y cyhoedd. Credwn fod y gefnogaeth gyhoeddus ychwanegol hon yn hanfodol er mwyn sicrhau cefnogaeth wleidyddol i bolisïau sy'n ystyrlon o seiclo a buddsoddiad; yn hanfodol i wella diogelwch ar ein ffyrdd; ac yn hanfodol i gynyddu nifer y bobl sy'n buddio o seiclo ledled y DU.

Ond sut allwn greu ymchwydd o gefnogaeth gyhoeddus ehangach sy'n ymestyn tu hwnt i'n cymuned ni o selogion seiclo? Ein nod hirdymor yw cyflawni hyn drwy ychwanegu at ein cynulleidfa bresennol o bobl sydd eisoes yn seiclo, er mwyn apelio'n ogystal i bobl â diddordebau sy'n gorgyffwrdd â seiclo. Pobl sydd prin yn seiclo eu hunain – os o gwbl – ond sy'n awyddus i fynd i'r afael â newid hinsawdd neu'r heriau i iechyd corfforol ac iechyd meddwl rydym yn eu hwynebu fel cymdeithas ac fel unigolion. Credwn y bydd cefnogaeth gyhoeddus yn dilyn pan fydd y grŵp ehangach hwn o bobl yn gweld buddion seiclo hefyd.

Er mwyn cyflawni'r nod uchelgeisiol, hirdymor hwn i newid canfyddiadau cyhoeddus o seiclo, yn gyntaf rhaid inni gryfhau ein sylfeini fel elusen. Dyma fydd ein ffocws dros y pum mlynedd nesaf. Ar yr un pryd, byddwn yn paratoi'r ffordd ar gyfer ymgysylltu â mwy o bobl a chymunedau amrywiol o 2029–2034.

# Ein hamcanion strategol

Dyma ein pum amcan strategol uchelgeisiol a chydategol a fydd yn sicrhau bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar y meysydd a gaiff yr effaith gadarnhaol fwyaf yn ystod y pum mlynedd nesaf.

1. **Gwella'r canfyddiadau o seiclo fel bod pawb yn gweld ei fuddion**
2. **Gwneud seiclo'n brofiad mwy cadarnhaol fyth**
3. **Hybu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n seiclo**
4. **Gwella'r dewis trafnidiaeth drwy alluogi ac annog mwy o bobl i wneud teithiau lleol ar gefn beic**
5. **Cael mwy o effaith trwy fod yr elusen orau y gallwn fod**

1

# Gwella'r canfyddiadau o seiclo fel bod pawb yn gweld ei fuddion

Er bod ein haelodau, cefnogwyr a phartneriaid yn gwybod bod seiclo'n beth da, mae llawer o bobl eraill yn parhau i ystyried seiclo'n llai ffafriol. Mae argyhoeddi mwy o bobl am fuddion amlochrog niferus seiclo yn ffactor hollbwysig o'r gwaith i ddwyn perswâd ar wneuthurwyr polisi ar draws y DU i gefnogi seiclo ac i fuddsoddi ynddo.

Byddwn yn gwella canfyddiadau drwy ddadlau'n gyson o blaid seiclo. Bydd yr iaith a ddefnyddiwn, y wybodaeth a data a gyflwynwn a'r straeon a adroddwn yn helpu ein cynulleidfaoedd i weld buddion seiclo a'i effaith gadarnhaol. Hefyd, mae'n bwysig iawn ein bod ni'n herio'r canfyddiadau o bwy sy'n mynd ar feic. Mae pobl o bob lliw a llun yn seiclo - nid oes y fath beth â 'seiclwr arferol' a bydd ein straeon o fywyd go iawn a phrofiadau seiclo ein haelodau, cefnogwyr a phartneriaid yn profi y gall pawb ohonom fuddio o seiclo.

## Mae ein prosiectau mawr yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Helpu'r gymuned seiclo gyfan i siarad am seiclo mewn ffordd sy'n apelio at gynulleidfaoedd ehangach**
- **Adrodd straeon cymhellol am y bobl sy'n cael budd o seiclo**
- **Datblygu ystod ehangach fyth o brosiectau seiclo mewn cymunedau lleol**



2

# Gwneud seiclo'n brofiad mwy cadarnhaol fyth

Rydym yn angerddol dros seiclo, ond cydnabyddwn nad yw pob profiad o seiclo'n gadarnhaol.

Rydym yn benderfynol y bydd seiclo'n opsiwn diogel, cyfleus a phleserus i bawb. P'un yn fam yn mynd â'i phlant i'r ysgol, rhywun yn mwynhau teithiau hir ar y ffordd gyda'i glwb seiclo, neu bobl yn chwilio am antur oddi ar y ffordd mewn mannau gwyllt, hoffem wneud y DU yn lle hyd yn oed yn well i bawb seiclo ynddo.



## Mae ein prosiectau mawr yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Datblygu ystod o lwybrau newydd ledled y DU**
- **Gwella mynediad i gefn gwlad ar gyfer pobl sy'n seiclo trwy ein gwaith eirioli**
- **Ymgyrchu dros wella diogelwch ac ansawdd ein ffyrdd**
- **Datblygu'n barhaus cynigion aelodaeth newydd ar gyfer unigolion a grwpiau**
- **Gwella ymwybyddiaeth o'r cynllun 'Cyclists Welcome' – ein safle sy'n rhestru lleoedd sy'n gyfeillgar i feiciau**



# 3 Hybu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n seiclo

Er mwyn gwireddu potensial llawn seiclo i wella bywydau pobl, rhaid inni gynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n seiclo. Mae hyn yn golygu lleihau'r rhwystrau corfforol, seicolegol a diwylliannol mae pobl yn eu hwynebu.

Byddwn yn adeiladu ar ein hanes o gyflawni prosiectau yn y gymuned sy'n cael effaith ledled y DU. Prosiectau sy'n galluogi pobl i ddarganfod, adeiladu ar neu adfywio eu cariad at seiclo. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni rhaglenni sy'n cynnig datrysiadau i'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag seiclo.

Mae ein prosiectau seiclo arloesol yn creu buddion sy'n newid bywydau i bobl a chymunedau y mae arnynt eu hangen mwyaf, gan gynnwys pobl anabl, pobl â heriau iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a'r rhai sy'n cael trafferth yn ariannol. Byddwn yn parhau â'n gwaith lobïo ac ymgyrchu sy'n cael effaith, gan sicrhau bod y gwaith hwn yn cynnwys ystod o safbwyntiau a phrofiadau gwahanol, sy'n galluogi i bobl nad ydynt wedi'u cynrychioli ym maes seiclo ar hyn o bryd deimlo ei fod yn ddewis dichonol iddynt.
Ni fyddwn yn fodlon ar gynyddu nifer y bobl sy'n seiclo yn unig. Er mwyn i'n helusen gael yr effaith fwyaf posibl, a gwella canfyddiadau o seiclo, mae'n hollbwysig inni wella amrywiaeth y bobl sy'n seiclo – fel bod pawb yn elwa ohono.







## Mae ein prosiectau mawr yn y maes hwn yn cynnwys:

- Adeiladu ar ein rhaglen arloesol Adfywiad Mawr y Beiciau a lwyddodd i sicrhau cyfraddau cyfranogi o 50% ymysg degau o filoedd o fenywod
- Cefnogi miloedd o bobl anabl i gymryd rhan mewn seiclo trwy'r Profiad Seiclo Cynhwysol
- Cyrraedd mwy o gymunedau o amddifadedd trwy ddosbarthu grantiau a chyflawni gweithgareddau fel rhan o brosiectau fel Clybiau Seiclo Cymunedol a'r Gronfa Mynediad i Seiclo
- Adeiladu ar ymgyrchoedd sy'n dangos ac yn annog amrywiaeth mewn seiclo, fel 100 o Fenywod mewn Seiclo
- Dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol i wneud seiclo'n fwy atyniadol a mwy diogel i ystod ehangach o bobl

4

# Gwella'r dewis trafnidiaeth drwy alluogi ac annog mwy o bobl i wneud teithiau lleol ar gefn beic

Gall seiclo chwarae rhan hollbwysig yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd, lleihau llygredd aer a chreu lleoedd mwy dymunol i fyw a threulio amser ynddynt – yn enwedig os allwn ni alluogi ac ysbrydoli mwy o bobl i wneud teithiau lleol ar gefn beic.

I gyflawni hyn, rhaid i bobl ystyried seiclo fel dewis amgen i yrru, sy'n ddichonol, cyfleus a deniadol, yn enwedig ar gyfer teithiau byr. Dyma ble mae ein gwaith eirioli, a enillodd gwobrau, yn berthnasol. Rydym wedi ymgyrchu dros newid cadarnhaol i seiclo ers inni sefydlu 146 o flynyddoedd yn ôl, a bydd hyn yn parhau'n ganolog i'r hyn a wnawn.

Byddwn yn parhau i godi llais ein haelodau a chefnogwyr ar y cyd er mwyn pwyso i gael ffyrdd mwy diogel, mwy o seilwaith seiclo o ansawdd da, a mwy o gyllid ar gyfer seiclo ledled y DU. Byddwn yn meithrin partneriaethau er mwyn cael yr effaith mwyaf posibl ac i gael y cyfle gorau posibl ar gyfer dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth. Bydd ein rhaglenni newid ymddygiad yn parhau i rymuso unigolion i ddefnyddio beic ar gyfer teithiau byr, gan helpu i'w droi'n arfer ar draws y cymunedau.







## Mae ein prosiectau mawr yn y maes hwn yn cynnwys:

- Datblygu ymgyrch integredig i wella buddsoddiad mewn seilwaith seiclo
- Parhau i gyflawni ein prosiectau mawr i newid ymddygiad lle rydym eisoes wedi cyrraedd 40-80% o gyfranogwyr yn lleihau'r defnydd a wnânt o geir
- Newid naratifau a phenderfyniadau gwleidyddol o ran dewis dulliau teithio drwy gomisiynu a rhannu ymchwil annibynnol gyda phartneriaid
- Ysgogi rhaglen gyswllt strategol ledled y DU er mwyn gwella ein henw, proffil a dylanwad ymysg gwneuthurwyr polisi – mewn partneriaeth â'n Rhwydwaith Eirioli dros Seiclo
- Cysylltu mwy o gyflogwyr â chynllun Cyflogwyr sy'n Ystyrlon o Seiclo a chynnig gweithle ehangach

# 5 Cael mwy o effaith trwy fod yr elusen orau y gallwn fod

Ni allwn gyflawni ein strategaeth na'n huchelgeisiau heb barhau i gryfhau Cycling UK er mwyn inni fod yr elusen orau bosibl. Po gryfed ein sylfeini, y mwyaf o effaith a gawn.



Mae hyn yn golygu buddsoddi yn ein tîm o staff ymroddedig, gwella systemau a phrosesau, a thyfu ein gallu i gyflawni. Gan ein bod yn elusen, mae hefyd yn golygu ein bod ni'n edrych ar ein hincwm ac yn dod o hyd i ffyrdd amrywiol, newydd o greu incwm i gyflawni'r gwaith a wnawn.

## Mae ein prosiectau mawr yn y maes hwn yn cynnwys:

- **Arallgyfeirio ein hincwm drwy bartneriaethau newydd, ymddiriedolaethau a sefydliadau, credadwy**
- Parhau i fuddsoddi yn ein tîm o staff, ynghyd â'n systemau a phrosesau
- Diweddaru a chryfhau ein brand, a chodi proffil ein helusen



# Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain

Ni all Cycling UK gyflawni'r amcanion hyn ar ei phen ei hun –mae ein strategaeth newydd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu partneriaethau sydd eisoes yn bodoli a sefydlu rhai newydd.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth a hoffech ein helpu ni i greu bywydau hapusach, iachach a gwyrddach trwy seiclo, gweler tudalen 19 i gael mwy o wybodaeth amsut allwch chi neu'ch sefydliad ymuno â'rmudiad dros seiclo.

# Cycling UK Damcaniaeth newid

## Mewnbwn

- Pobl a systemau
- Incwm
- rtneriaid a rhwydweithiau

## Allbwn

### Cyflenwi

- Adnoddau i bobl sy'n seiclo (aelodaeth, llwybrau, cynnyrch amwy)
- Prosiectau sy'n galluogi ac yn annog mwy o bobl i seiclo
- Mwy o gyfleoedd i fwynhau seiclo

### Dylanwadu

- Ymgyrchoedd proffil uchel sy'n cael effaith
- Rhannu ymchwil a thystiolaeth

### Cydweithredu

- Cefnogi rhwydweithiau cadarn o grwpiau seiclo ac ymgyrchu lleol
- Partneriaethau newydd i ymestyn cyrhaeddiad a chefnogaeth i seiclo

## Canlyniadau tymor byr

### Unigolion

- Gwell sgiliau a hyder mewn seiclo
- Cymunedau seiclo cadarn yn lleol, rhanbarthol ac ar lein
- Agwedd cadarnhaol at seiclo
- Disodli teithiau lleolmewn car
- Ystod fwy amrywiol o bobl yn teimlo wedi'u cynnwys ymmyd seiclo
- Mwy o fwriad i seiclo
- Mae seiclo yn haws ac yn fwy o hwyl

### Cymdeithas

- Trafodaethau polisimwy gwybodus ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Sylw cadarnhaol a dylanwadol yn y cyfryngau
- Pobl yn teimlo'n fwy cysylltiedig
- Grwpiau sy'n ymgyrchu dros deithio llesol lleol yn dylanwadu ar benderfyniadau lleol a rhanbarthol
- Cynnyrch a gwasanaethau sy'n parhau a rhai newydd sy'n gwneud seiclo'n ddiogel, hwyl a chyffrous
- Llai o draffig
- Mwy o sefydliadau a rhwydweithiau'n cefnogi seiclo'n weithredol

## Caelmwy o effaith drwy fod yr elusen  orau y gallwn fod

## Ein hamcanion strategol

- Gwella canfyddiadau o seiclo fel bod pawb yn gweld y buddion
- Gwneud seiclo'n brofiad mwy cadarnhaol fyth
- Cynyddu nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n seiclo
- Gwella'r dewis trafnidiaeth drwy alluogi ac annog mwy o bobl i deithio'n lleol ar feic

## Canlyniadau hirdymor

### Bywydau hapusach, iachach a gwyrddach trwy seiclo

- Mwy o gyllid ar gyfer seilwaith a chymorth teithio llesol
- Llai o allyriadau carbon
- Cymunedau cryfach
- Buddion i'r economi lleol
- Newidiadau ehangach i bolisi sy'n galluogi seiclo
- Ffyrddmwy diogel
- Gwell iechyd a llesiant



# Mesur ein llwyddiant

**Mae ein hamcanion strategol yn rhoi inni fframwaith cadarn ar gyfer blaenoriaethu a gwella ein gwaith, ond sut fyddwn ni – a'n haelodau, cefnogwyr, partneriaid a'r cyhoedd – yn gwybod ein bod ni ar y trywydd iawn i gyflawni ein nodau?**

Mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer pob un o'n hamcanion, ynghyd â ffyrdd i olrhain canlyniadau ansoddol a meintiol, ac effaith, y gwaith a wnawn.

Byddwn yn olrhain effaith ein gwaith trwy fonitro newidiadau i ymddygiad ac agweddau pobl dros amser, a chanfod canlyniadau ymgyrchoedd a thueddiadau cenedlaethol.

Byddwn yn olrhain ein hallbynnau drwy fetrigau fel y defnydd a wneir o'n gwasanaethau a chynnyrch, cyrhaeddiad y prosiect newid ymddygiad a nifer y bobl sy'n ymgysylltu.

Mae ein harbenigedd mewnol o ran monitro a gwerthuso yn golygu bod gennym y gallu i fesur ac asesu ein gwaith yn effeithiol. Mae'n golygu y gallwn fod yn hyderus yn ein canfyddiadau, gwneud newidiadau ble mae lle i wella, a dathlu'r llwyddiannau a gyflwynwn yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Bydd ein hadroddiad effaith blynyddol yn gyfle inni bwysleisio'n cyrhaeddiad yn erbyn ein hamcanion ac i rannu ein cyflawniadau hyd yma.

# Ymunwch â ni ar y daith

**Ni allwn gyflawni ein nodau ar ein pennau ein hunain. Rydym wedi bod yn rhan o fudiad ehangach erioed, yn cydweithredu a rhannu er mwyn cael yr effaith mwyaf posibl. Byddem wrth ein boddau petaech yn ymuno â ni er mwyn inni gyrraedd sefyllfa lle gall pawb ohonom fwynhau bywydau hapusach, iachach a gwyrddach trwy seiclo.**

## Rhoi arian

Mae pob rhodd a dderbyniwn yn ein helpu ni i wella bywydau, lleoedd a'r blaned trwy fuddion arbennig seiclo. Mae eich cefnogaeth chi yn gwneud ein holl waith ni yn bosibl.

## Ymuno

Mae gan ein helusen mwy na 71,000 o aelodau, a nhw yw sail ein grym ni. Drwy ymuno ag elusen Cycling UK, rydych chi'n ein galluogi ni i weithio i wneud y DU yn lle gwell i bawb ohonom seiclo. Yn ein tro, rydym yn ymrwymo i roi ichi'r profiad aelodaeth gorau posibl.

## Ymgyrchu

Rydym wedi ymgyrchu dros newid cadarnhaol i seiclo ers ein sefydlu 146 o flynyddoedd yn ôl. Helpwch ni i bwyso am ffyrdd mwy diogel, mwy o seilwaith seiclo o ansawdd da, a mwy o gyllid i seiclo. Gyda'n gilydd, mae ein llais yn gryfach.

## Gwirfoddoli

P'un ydych chi'n arwain teithiau grŵp cynorthwyol, helpu plant i bedalu'n ddiogel i'r ysgol, yn beilot tandem i bobl ag amhariad ar eu golwg, neu'n cyfrannu trwy ficrowirfoddoli, byddwch yn helpu i wella bywydau trwy seiclo.

## Partner

Rydym yn falch i weithio gydag ystod amrywiol o sefydliadau a chwmnïau sy'n rhannu ein gweledigaeth i gael bywydau hapusach, iachach a gwyrddach trwy seiclo. Dewch inni dyfu ein heffaith, gyda'n gilydd.

## Cysylltu

Dewch inni aros mewn cysylltiad wrth inni dyfu mudiad i sicrhau dyfodol hyd yn oed yn fwy llewyrchus i seiclo. Ymunwch â'n rhestr bostio a chysylltwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol i barhau â'r sgwrs.



CyclingUK

cyclinguk.org

Cyclists' Touring Club (CTC), yn masnachu fel Cycling UK™ , cwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yn Lloegr rhif: 00025185 Wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr rhif elusen: 1147607 ac yn yr Alban rhif elusen: sco42541